


Mesuryddion clyfar: canllaw ar gyfer tenantiaid



Am fesuryddion clyfar

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion nwy a thrydan.

Maen nhw'n cael eu gosod mewn cartrefi ar draws Prydain Fawr heb unrhyw gost ychwanegol, gan ddisodli mesuryddion traddodiadol (gan gynnwys mesuryddion rhagdalau). Mae mesuryddion clyfar yn mesur faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio bron mewn amser real ac yn dangos faint mae'n ei gostio i chi ar sgrîn ynni cartref gyfleus.

Pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar?

Gall fod dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar. Os mai chi sy'n talu am y nwy neu'r trydan yn eich eiddo a rentir, gallwch chi ddewis cael mesurydd clyfar. Rydym yn argymhell i chi ddweud wrth eich landlord cyn cael un.

Mae hynny oherwydd y gallai fod rheolau yn eich cytundeb tenantiaeth ynghlŷn â sut mae ynni'n cael ei gyflenwi i'r eiddo, gan gynnwys y math o fesurydd y gellir ei osod. Os yw eich cytundeb tenantiaeth yn dweud bod angen caniatâd gan eich landlord i newid y mesurydd yn eich eiddo, ni ddylent ei atal yn afresymol.

Os hoffech chi ofyn i'ch landlord am gael mesurydd clyfar, defnyddiwch ein templedi defnyddiol ar ein gwefan [yma](#).

Manteision mesuryddion clyfar

Mae gan fesuryddion clyfar lawer o fuddion i bobl sy'n rhentu eu cartref. Rydyn ni'n gwybod bod pobl sydd â mesuryddion clyfar yn cael gwell syniad o faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio.

Maent yn darparu darlenniadau mesurydd cywir ac awtomatig, ac yn dangos eich defnydd o ynni bron mewn amser real ar y sgrîn ynni cartref. Gall cael yr wybodaeth hon eich helpu i wneud newidiadau bach o gwmpas eich cartref i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.



Mae mesuryddion clyfar yn:

- gadael i chi weld faint rydych chi'n ei wario ar ynni mewn punnoedd a cheiniogau ar eich sgrîn ynni cartref, gan eich helpu i gadw ar ben eich biliau ynni
- anfon darlleniadau awtomatig i'ch cyflenwr sy'n golygu y bydd eich biliau'n gywir
- caniatáu opsiynau ychwanegu credyd lluosog os ydych chi'n talu am eich ynni ymlaen llaw, fel ar-lein, ar eich ffôn symudol neu yn y siop
- darparu darlleniadau mesurydd awtomatig ar ddiwedd eich tenantiaeth, gan leihau'r siawns o anghydfodau ynghylch biliau ynni
- helpu chi i weld sut gall gwneud newidiadau bach o gwmpas y tŷ, fel addasu eich rheolaethau gwresogi, wneud gwahaniaeth i'ch defnydd o ynni

Y gosodiad

Mae mesuryddion clyfar yn cael eu gosod gan gyflenwyr ynni, neu gontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan, ac mae'r broses osod yn cymryd tua dwy awr.

Mae'n rhaid bod gan y gosodwr gymhwyster ffurfiol i gyrraedd safonau cenedlaethol penodol, a dilyn arferion penodol yn ystod eich gosodiad mesuryddion clyfar.

Yr Atodlen Gosod Mesuryddion Clyfar (SMIS) yw'r enw ar hyn, ac mae pob cyflenwr ynni wedi ymrwymo i'r cod hwn.

Bydd angen i rywun fod gartref yn ystod y gosodiad er mwyn sicrhau bod gan y gosodwr fynediad clir i'r mesurydd a bod cwpwrdd y mesurydd wedi'i ddatgloi – efallai y bydd angen i chi gysylltu â rheolwr yr adeilad ymlaen llaw i gael mynediad i leoliad y mesuryddion..

Mae'r mesurydd traddodiadol yn cael ei dynnu ymaith a gosodir mesurydd clyfar yn ei le. Mae mesuryddion clyfar o faint tebyg i fesuryddion traddodiadol ac fel arfer yn cael eu gosod yn yr un man â'r mesurydd gwreiddiol.

Fel rhan o'r broses osod, bydd angen i'r peiriannydd ddiffodd y nwy a'r trydan am gyfnod byr wrth i'r mesuryddion eu hunain gael eu newid.

Ar ôl adfer y cyflenwad nwy, bydd y peiriannydd yn gwneud gwiriad diogelwch nwy.

Byddant hefyd yn dangos i chi sut i ddefnyddio'r system mesuryddion clyfar a sgrîn ynni cartref, a rhoi cyngor effeithlonrwydd ynni i chi.

Pan fyddwch chi'n symud allan

Ar ddiwedd eich tenantiaeth, mae'n bwysig eich bod yn gadael y sgrîn ynni cartref ar gyfer y tenant nesaf gan fod hyn wedi'i baru'n ddiogel â'r mesurydd(ion) clyfar ac ni fydd yn gweithio os byddwch yn mynd ag ef gyda chi.

I gael gwybod mwy am fuddion mesuryddion clyfar a sut i ofyn am osodiad gan eich cyflenwr ynni, ewch i [smartenergyGB.org](https://www.smartenergyGB.org)